# Arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain darpariaeth sy’n cynnig addysg gynnar. Mae’n gofyn i chi arwain y gwaith o gynllunio’r cwricwlwm a modelu arfer da wrth ddarparu addysg gynnar o ansawdd uchel i blant a’u teuluoedd. Mae’n disgwyl i chi sicrhau bod digon o adnoddau i gyflwyno ac asesu’r cwricwlwm, yn ogystal â gwerthuso effeithiolrwydd a phennu strategaethau ar gyfer gwella .

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill mewn perthynas â darparu’r cwricwlwm
2. arwain darpariaeth y cwricwlwm ar gyfer addysg gynnar er mwyn cwrdd ag anghenion pob plentyn
3. cefnogi eraill i ddatblygu cynlluniau’r cwricwlwm i gwrdd â gofynion y fframweithiau blynyddoedd cynnar
4. cynnwys plant a theuluoedd yn y gwaith o gynllunio’r cwricwlwm
5. nodi a chaffael adnoddau i roi cynlluniau’r cwricwlwm ar waith
6. arwain y gwaith o ddarparu’r cwricwlwm gan ddefnyddio dulliau addysgegol personol
7. rhoi cynlluniau ar waith a modelu arferion gorau drwy weithio’n uniongyrchol â phlant
8. rhoi arweiniad a chymorth i eraill er mwyn nodi a chael gafael ar adnoddau
9. arwain asesiadau o brofiadau ar draws y cwricwlwm
10. hwyluso’r gwaith o weithredu cylchoedd cynllunio
11. arwain y gwaith o ddatblygu systemau a gweithdrefnau i fonitro, gwerthuso a gwella darpariaeth y cwricwlwm
12. cefnogi eraill i fonitro a gwerthuso darpariaeth y cwricwlwm
13. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. arwyddocâd cyfathrebu, iaith a llythrennedd ar y ffordd mae plant yn dysgu ac yn datblygu
2. sut mae cynnwys datblygiad cyfathrebu, iaith a llythrennedd ym mhob rhan o’r cwricwlwm
3. sut mae defnyddio ymchwil sy’n seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu systemau a gweithdrefnau i fonitro, gwerthuso a gwella darpariaeth y cwricwlwm
4. pwysigrwydd cynnwys plant a theuluoedd yn y gwaith o gynllunio’r cwricwlwm
5. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi mewn perthynas â darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant
6. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gynllunio cwricwlwm
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddarpariaeth y cwricwlwm
8. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddarpariaeth y cwricwlwm
9. pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar mewn perthynas â darpariaeth y cwricwlwm
10. sut mae cefnogi eraill i sicrhau darpariaeth y cwricwlwm
11. sut mae sicrhau data dilys a dibynadwy wrth wneud asesiadau ynghylch datblygiad plant
12. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth arsylwi ac asesu
13. prosesau a gweithdrefnau’r gweithle ar gyfer arsylwi ac asesu
14. sut mae prosesau a gweithdrefnau eich gweithle’n cysylltu â fframweithiau allanol y cwricwlwm
15. y newidiadau y gall plant neu bobl ifanc eu profi
16. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol wrth arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant
17. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant
18. theorïau sy'n berthnasol i arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant
20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i

blant

21. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant, a sut i fynd i’r afael â hyn

22. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu mewn perthynas â darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain darpariaeth y cwricwlwm o addysg gynnar i blant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD428 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cwricwlwm o Addysg Gynnar i Blant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |